# Stop Shooting on Welsh Public Land



Welsh public land is being leased for the 'sport shooting' of pheasants by the Welsh Government environment agency, Natural Resources Wales (NRW). It is happening without any public consultation.

## BAD FOR BIRDS

'Game birds' are mass-produced on an industrial scale for shooters. Industry figures show that around half of the birds produced die from predation or disease before the shoot season starts. Many of those who survive until the killing season begins are maimed by shooters, and face a slow, agonising death.

## BAD FOR THE ENVIRONMENT

Scientific evidence shows that the release of large numbers of 'game birds' destroys invertebrate populations, damages hedgerows, impoverishes vegetation and transmits parasites. Local wildlife suffers because gamekeepers routinely shoot, snare and trap any animal viewed as a threat to the survival of the 'game birds'. Shooters discharge many thousands of tonnes of toxic lead shot into the environment, which poisons and kills animals, as well as being the major cause of UK lead pollution.

## BAD POLICY

NRW has not just maintained 'inherited' shooting leases, but is expanding shooting opportunities on its land. It is doing so without regard for public opposition to the killing of animals for 'sport', and, in some cases, against the advice of its own internal specialists. In addition, people may be restricted from using public land, just so that shooting can take place.

## What can you do?

Visit our dedicated website **www.animalaid.org.uk/go/NRW** and take action!
The website is constantly updated with ways you can help put an end to the killing of birds for fun on Welsh public land.

**Public land needs to be used in ways that are fair, reasonable and compassionate, and which enhance, rather than damage, the natural environment and wildlife.**

ANIMAL AID

stop shooting on welsh public land!

@AnimalAid

Registered in the UK as Animal Abuse injustice and Defence Society, company number 1787309

# Stopiwch saethu ar dir cyhoeddus Cymru



Mae tir cyhoeddus Cymru yn cael ei brydlesu gan asiantaeth amgylchedd Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, ar gyfer ‘saethu ffesantod am hwyl’. Mae’n digwydd heb unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus.

## Mae’n wael i adar.

Mae adar hela yn cael eu masgynhyrchu ar raddfa ddiwydiannol ar gyfer saethwyr. Mae ffigyrau’r diwydiant yn dangos bod tua hanner yr adar sy’n cael eu cynhyrchu yn marw drwy ddod yn ysglyfaeth neu drwy glefydau cyn i’r tymor saethu ddechrau. Mae llawer o’r rhai sy’n goroesi tan i’r tymor lladd ddechrau yn cael eu clwyfo gan saethwyr ac yn wynebu marwolaeth araf ac arteithiol.

## Mae’n wael i’r amgylchedd.

Mae tystiolaeth wyddonol yn dangos bod rhyddhau niferoedd uchel o adar hela yn difetha poblogaeth anifeiliaid di-asgwrn-cefn, yn niweidio cloddiau, yn llymhau llystyfiant ac yn trosglwyddo parasitiaid. Mae bywyd gwyllt lleol yn dioddef achos mae’n arfer gan giperiaid saethu, maglu a thrapio unrhyw anifail sy’n fygythiad i’r adar hela. Mae’r saethwyr yn tanio miloedd o dunelli o blwm gwenwynig mewn pelenni plwm sy’n gwenwyno ac yn lladd anifeiliaid yn ogystal â bod yn brif achos llygredd plwm yn y DU.

## Mae’n bolisi gwael.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru nid yn unig wedi cadw’r prydlesau saethu oedd yn bodoli yn barod ond maen nhw’n ehangu cyfleoedd saethu ar eu tir. Maen nhw’n gwneud hyn heb ystyried y gwrthwynebiad cyhoeddus sydd i ladd anifeiliaid am hwyl ac, mewn ambell achos, maen nhw’n mynd yn erbyn cyngor eu harbenigwyr mewnol. Ar ben hyn, gall pobl gael eu rhwystro rhag defnyddio tir cyhoeddus er mwyn i’r saethu gael ei gynnal.

## Beth fedrwch chi’i wneud?

Ewch i’n gwefan **www.animalaid.org.uk/go/NRW** a gweithredwch!
Caiff y wefan ei diweddaru yn gyson gyda ffyrdd y gallwch chi helpu i roi terfyn ar ladd adar am hwyl ar dir cyhoeddus Cymru.

**Dylid defnyddio tir cyhoeddus mewn ffyrdd sydd yn deg, rhesymol a thrugarog ac sydd yn gwella, yn hytrach na niweidio, yr amgylchedd naturiol a bywyd gwyllt.**

ANIMAL AID

Stopiwch saethu ar dir cyhoeddus Cymru!

@AnimalAid

Registered in the UK as Animal Abuse injustice and Defence Society, company number 1787309